

# Darlun o Ofal Iechyd

---

Adroddiad Archwilydd  
Cyffredinol Cymru

Hydref 2021



## Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
<b>Prif Adroddiad</b>	<b>5</b>
Cyd-destun gofal iechyd	5
Strategaeth gofal iechyd	7
Cyllid gofal iechyd	11
Gofal iechyd: galw a chapasiti	14
Perfformiad gofal iechyd	26
Gofal iechyd: materion allweddol	31

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o allbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021. Mae ein prif adroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021 yn crynhoi rhai o'r tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus ac yn nodi ein safbwynt ar rai o'r materion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn: Darlun o ofal iechyd yn crynhoi gwybodaeth allweddol am ofal iechyd yng Nghymru gan gynnwys y cyd-destun gweithredu strategol, cyllid, perfformiad a chapasiti. Mae gofal iechyd yn sector hynod gymhleth ag iddo faterion penodol sy'n effeithio ar wahanol rannau o'r system. Ni fwriedir i'r adroddiad hwn fod yn gynhwysfawr. Mae'n nodi'r hyn a ystyriwn yn rhai o'r materion allweddol ar gyfer gofal iechyd, gan gydnabod y bydd gan gyrff adolygu a sylwebyddion eraill eu safbwynt eu hunain ar y materion allweddol.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar gyfuniad o'r gwaith yr ydym ni wedi'i gyhoeddi yn ogystal ag ymchwil gan sefydliadau eraill.

## Arddangosyn 1: Allbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus



# Prif adroddiad

---

## Cyd-destun gofal iechyd

### Darparu gofal iechyd mewn cyfnod heriol

- 1 Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau enfawr i wasanaethau cyhoeddus a'r bobl sy'n eu darparu. Cafodd rhai gwasanaethau eu darparu'n wahanol ac eraill eu hoedi. Bu'n rhaid i staff addasu i ffyrdd newydd o weithio a chafodd llawer eu hadleoli i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Mae pob un ohonom yn Archwilio Cymru yn talu teyrnged i ymroddiad ac ymdrechion anhygoel gweision cyhoeddus yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- 2 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd effeithiau uniongyrchol COVID-19 yn dal i gael eu teimlo. Roedd cleifion COVID-19 yn dal i gael eu derbyn i ysbytai ac roedd cyrff iechyd yn ceisio ailgychwyn ac adfer eu gwasanaethau. Roedd gwaith i ddeall effeithiau anuniongyrchol COVID-19 wedi dechrau, ond roedd yn rhy gynnar i fesur maint a graddau'r effeithiau hyn.
- 3 Bydd yr her o adennill gwasanaethau a mynd i'r afael ag effaith anuniongyrchol COVID-19 yn debygol o barhau am flynyddoedd i'r dyfodol. Mae'r broblem yn cael ei dwysáu gan y ffaith bod rhai gwasanaethau gofal iechyd dan bwysau eisoes cyn y pandemig. Yn fwy uniongyrchol, mae cyrff iechyd yn parhau i ymateb i effaith uniongyrchol COVID-19, gan weithredu o fewn mesurau atal a rheoli heintiau sy'n cyfyngu ar gapasiti corfforol.
- 4 Er gwaethaf yr heriau sylweddol sydd o'n blaenau, mae cyfleoedd i ailgodi a darparu gwasanaethau'n wahanol, rhoi pobl wrth wraidd gwasanaethau, a dysgu o'r ymateb cyfunol i COVID-19.

## Strwythurau a chyfrifoldebau

- 5 Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r polisi a'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer GIG Cymru. Darperir gwasanaethau gofal iechyd drwy saith bwrdd iechyd lleol, tair ymddiriedolaeth GIG<sup>1</sup> a dau awdurdod iechyd arbennig<sup>2</sup>. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am iechyd a llesiant eu poblogaeth leol sy'n cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Mae'r ymddiriedolaethau'n gyfrifol am y gwasanaeth ambiwlans, iechyd y cyhoedd, gwasanaethau gwaed a chanser nad ydynt yn rhai llawfeddygol ar gyfer rhannau o Gymru.
- 6 Yng Nghymru, mae byrddau iechyd yn ddarparwyr ac yn gomisiynwyr gwasanaethau. Mae ganddynt gcontractau gyda phractisau deintyddol a meddygon teulu, darparwyr optometreg a fferyllfeydd i ddarparu gwasanaethau lleol. Mae cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio i sefydlu trefniadau comisiynu cydweithredol, gan gynnwys trwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae [gwefan](#) Llywodraeth Cymru yn esbonio cyfrifoldebau pob sefydliad gan gynnwys cyrff eraill sy'n ffurfio GIG Cymru.

---

1 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Felindre, ac Ymddiriedolaethau GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru.

2 Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

## Strategaeth gofal iechyd

### Dull gweithredu cyffredinol

- 7 Mae dull strategol Llywodraeth Cymru wedi esblygu i ganolbwyntio ar uno iechyd a gofal cymdeithasol a'r weledigaeth o ofal iechyd darbodus. I Lywodraeth Cymru, mae gofal iechyd darbodus<sup>3</sup> yn ymwneud â chleifion yn cyd-lunio gwasanaethau â gweithwyr proffesiynol yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt; blaenoriaethu pobl sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf; osgoi gweithdrefnau meddygol diangen; a lleihau amrywio amhriodol drwy ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson.
- 8 Adeiladodd Llywodraeth Cymru ar yr egwyddorion gofal iechyd darbodus yn ei chynllun deng mlynedd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol: Cymru Iachach (2018). Nod y cynllun oedd creu dull 'system gyfan' o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol yn seiliedig ar werthoedd cyffredin a symud y system honno tuag at atal salwch, a hyrwyddo iechyd a llesiant. Ei bwriad oedd y byddai technoleg ddigidol yn cefnogi'r trawsnewid gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol drwy System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Cydnabu Cymru Iachach yr angen i drawsnewid gwasanaethau drwy gynyddu arloesedd lleol yn gyflym. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Raglen Drawsnewid genedlaethol sy'n gyfrifol am gyflawni'r ymrwymïadau yn y cynllun.
- 9 Yn dilyn yr etholiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen lywodraethu newydd<sup>4</sup> ym mis Mehefin 2021. Roedd yn cynnwys amcan llesiant penodol i greu gofal iechyd effeithiol, o ansawdd uchel a chynaliadwy. Mae'r rhaglen lywodraethu yn rhoi mwy o fanylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni ei huchelgais gan gynnwys darparu triniaethau a gafodd eu gohirio gan y pandemig, gwella gallu cleifion i ddefnyddio gwasanaethau gweithwyr iechyd proffesiynol, a blaenoriaethu buddsoddiad mewn iechyd meddwl. Ymysg pethau eraill, mae hefyd yn bwriadu diwygio gofal sylfaenol drwy dwyn gwasanaethau meddygon teulu ynghyd â fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, cymuned a'r trydydd sector.

---

3 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar ddefnyddio gofal iechyd darbodus i wella gwasanaethau i gyrff iechyd yn 2016.

4 Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026, Mehefin 2021

## Gofynion cynllunio'r GIG

- 10 Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd yng Nghymru fantoli eu cyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd. Mae'n rhaid i gyrff iechyd hefyd gael Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd sy'n nodi sut y byddant yn darparu gwasanaethau gyda'r cyllid sydd ar gael.
- 11 Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG yn nodi gofynion a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrff iechyd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Tymor Canolig Integredig Cenedlaethol ar gyfer 2019-22 sy'n dwyn ynghyd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig cyrff iechyd ac yn esbonio sut y maent yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi targedau ar gyfer cyrff iechyd yn Fframwaith Cyflawni'r GIG ac yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer adrodd am y Fframwaith.
- 12 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd llesiant ar fyrddau iechyd a dwy o dair ymddiriedolaeth y GIG i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff perthnasol gyflawni datblygiad cynaliadwy drwy ystyried pum ffordd o weithio: hirdymor; atal; integreiddio; cydweithio, a chymryd rhan.
- 13 Sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, ac mae byrddau iechyd lleol yn aelod ohonynt. Nid yw ymddiriedolaethau'r GIG yn aelodau statudol o'r Byrddau ond maent yn gweithio gyda nhw a phartneriaid eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynnal asesiad llesiant lleol bob pum mlynedd, gan ddefnyddio data lleol a chenedlaethol i ddeall angen lleol. Mae'r asesiad yn llywio cynllun llesiant lleol sy'n nodi amcanion llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni.
- 14 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd weithio gyda chynghorau mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i asesu'r anghenion gofal a chymorth yn eu hardal a nodi pa wasanaethau sydd eu hangen.



## COVID-19 a thu hwnt

- 15 Ym mis Mawrth 2020, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda GIG Cymru i baratoi ar gyfer COVID-19. Fe wnaeth lacio targedau a threfniadau monitro, darparu cyllid brys, ac yn cytuno â'r cyrff iechyd ar y gwasanaethau hanfodol i'w cynnal a'r gweithgarwch nad yw'n fater brys i'w oedi<sup>5</sup>. Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd wrth gyrff iechyd i weithio ar gynlluniau chwarterol, chwe mis, ac yna cynlluniau blynyddol yn hytrach na chylch cynllunio tair blynedd. Fe wnaeth oedi'r gofyniad i gyrff iechyd gael Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd hefyd. Ers haf 2020, mae cyrff iechyd wedi bod yn ailgychwyn gweithgarwch nad yw'n fater brys lle bo hynny'n bosibl. Rhoddodd rhai y gorau i weithgarwch nad yw'n fater brys unwaith eto yn hydref 2020 wrth i gyfraddau heintio godi.
- 16 Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda byrddau iechyd, prif gynghorau<sup>6</sup>, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau Profi, Orlhain, Diogelu<sup>7</sup>. Yn fwy diweddar, mae wedi gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, byrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cydwasanaethau'r GIG, Gwasanaeth Gwaed Cymru a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol i ddarparu rhaglen frechu COVID-19<sup>8</sup>.
- 17 Yn 2021, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i GIG Cymru fynd i'r afael â'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae ei Fframwaith Cynllunio Blynyddol 2021-22<sup>9</sup> yn cyfarwyddo cyrff iechyd i ddarparu gwasanaethau i atal y 'pedwar niwed' (**Arddangosyn 2**). Mae'r Fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd gydbwysu eu hymateb i COVID-19 â chynllunio adferiad.

---

5 Yn seiliedig ar ganllawiau yn Fframwaith Gwasanaethau Hanfodol Sefydliad Iechyd y Byd.

6 Awdurdodau llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gynghorau sy'n cyflawni dyletswyddau statudol yn eu hardal. Nid yw'r term yn cynnwys cynghorau tref na chymuned. Mae pob cyfeiriad at gynghorau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at brif gynghorau.

7 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Profi, Orlhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd hyd yma, Mawrth 2021

8 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gweithredu Rhaglen Frechu COVID-19 yng Nghymru, Mehefin 2021

9 Roedd canllawiau cynllunio chwarterol Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarteri 2, 3 a 4 ar gyfer 2020-21 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd nodi sut y byddent yn atal y pedwar niwed.

## Arddangosyn 2: y pedwar niwed



Ffynhonnell: Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru

- 18 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru weledigaeth drosfwaol<sup>10</sup> ar gyfer gwella iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Mawrth 2021. Mae'r ddogfen yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol wrth iddi edrych tuag at adferiad gan gynnwys:
- parhau i ddarparu Profi, Olrhain, Diogelu a'r rhaglen frechu;
  - mynd i'r afael ag effaith COVID-19 ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a'r boblogaeth ehangach;
  - datblygu gofal sylfaenol a chymunedol ymatebol;
  - datblygu gwasanaethau iechyd meddwl cefnogol;
  - darparu gwasanaethau ysbyty effeithlon ac effeithiol;
  - datblygu gweithlu cadarn; a
  - chyflawni rhaglen trawsnewid digidol yn 2021.
- 19 Mae'r ddogfen weledigaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys blaenoriaethau penodol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, gofal cancer, diagnosteg a gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn nodi cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau'n wahanol, yn enwedig adeiladu ar ddefnydd cryfach o dechnoleg a chydweithio i ymateb i COVID-19. Ym mis Mai 2021, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wario £1 biliwn i gefnogi ei chynllun adfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £100 miliwn o gyllid cychwynnol i ariannu camau gweithredu uniongyrchol yn ei chynllun. Mae byrddau iechyd wedi cyflwyno cynlluniau i Lywodraeth Cymru yn nodi sut y maent yn bwriadu defnyddio eu cyfran o'r cyllid cychwynnol.

10 Llywodraeth Cymru, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych Tua'r Dyfodol, Mawrth 2021

- 20 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Clinigol Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith yn nodi trefniadau cynllunio a chyflawni ar gyfer gwasanaethau clinigol ond mae hefyd yn rhoi mwy o fanylion am gynlluniau Llywodraeth Cymru i sefydlu Gweithrediaeth y GIG. Mae'n dweud y bydd Gweithrediaeth y GIG yn y dyfodol yn 'rhoi arweiniad canolog' i wasanaethau clinigol. Yn y pen draw, bydd y Weithrediaeth yn ymgorffori rhwydweithiau, rhaglenni ac unedau cymorth cenedlaethol presennol.


## Cyllid gofal iechyd

- 21 Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r gyllideb ar gyfer cyrff iechyd yng Nghymru. Mae ein Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru<sup>11</sup> yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid a materion allweddol i gyrff cyhoeddus wrth bennu eu cyllidebau.
- 22 Cynyddodd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer rhedeg gwasanaethau'r GIG o ddydd i ddydd i bron i £8 biliwn yn 2019-20 – cynnydd mewn termau real<sup>12</sup> o 16% ers 2010-11 (**Arddangosyn 3**). Yn 2020-21, cynyddodd y gyllideb refeniw iechyd tua £1.6 biliwn (cynnydd o 13% mewn termau real), yn bennaf oherwydd cyllid ychwanegol i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Ar ddechrau mis Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ychwanegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a disgwylir i hyn arwain at tua £700 miliwn o gyllid blynyddol ychwanegol i Gymru erbyn 2024-25, sy'n cynnwys gwariant ledled y DU yn ogystal â chyllid drwy'r fformiwla Barnett.

---

11 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2018


12 Caiff ffigurau termau real eu haddasu i ystyried chwyddiant.

**Arddangosyn 3: cyllid refeniw iechyd mewn termau real 2010-11 i 2019-20; prisiau 2019-20**

Ffynhonnell: Offeryn Data Cyllid y GIG Archwilio Cymru

- 23 Yn 2019-20, gwariwyd bron i dri chwarter y gwariant refeniw iechyd ar wasanaethau ysbyty, cymunedol ac iechyd arbennig (**Arddangosyn 4**)

#### Arddangosyn 4: gwariant refeniw iechyd fesul categori 2019-20



Noder: Mae gwasanaethau Ysbyty, Cymunedol a Gofal Arbennig yn ymwneud â gwariant ar wasanaethau gofal iechyd a ddarperir yn yr ysbyty, ac ystod eang o wasanaethau cymunedol megis nyrsio ardal. Mae Gofal Sylfaenol yn ymwneud â gwariant ar wasanaethau a ddarperir gan ddeintyddion, meddygon teulu, optometryddion, fferyllwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Mae gofal iechyd gan ddarparwyr eraill yn ymwneud â gwariant ar wasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan sefydliadau eraill, nid GIG Cymru.

Ffynhonnell: Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru) Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru 2019-20

- 24 Er gwaethaf cyllidebau cynyddol, mae rhai cyrff iechyd wedi methu'n gyson â chyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb. Cyn y pandemig roedd rhai yn cario diffygion mawr. Mae ein hofferyn data rhyngweithiol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gyllid y GIG gan gynnwys gwariant ar COVID-19. Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru yn dileu £470 miliwn o ddyled yr oedd rhai byrddau iechyd wedi'i chronni ar ôl methu â gweithredu o fewn eu cyllidebau, er mwyn cefnogi adferiad COVID-19.
- 25 Dangosodd adolygiadau annibynnol yn 2014 a 2016<sup>13</sup> fod y GIG yn wynebu pwysau cost o tua 3 i 4% bob blwyddyn ar ben chwyddiant. Rhwng 2010-11 a 2019-20, cynyddodd y cyllid ar gyfer y GIG 1.7% y flwyddyn ar gyfartaledd, mewn termau real. Mae'r pwysau galw a chost hyn yn rhan o'r stori sy'n esbonio pam, er gwaethaf mwy o gyllid, y bu'n rhaid i'r GIG wella cynhyrchiant a sicrhau arbedion cost bob blwyddyn ac mae rhai byrddau iechyd wedi cael trafferth byw o fewn eu modd.


13 Ymddiriedolaeth Nuffield, A decade of Austerity in Wales? The funding pressures facing the NHS in Wales to 2025/26, Mehefin 2014; a'r Sefydliad Iechyd, The path to sustainability: funding projections for the NHS in Wales to 2019/20 and 2030/31, Hydref 2016

## Gofal iechyd: galw a chapasiti

### Mae'r galw am rai gwasanaethau iechyd wedi cynyddu'n gyson

26 Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod y galw am wasanaethau allweddol y GIG wedi bod yn cynyddu'n gyson yn y blynyddoedd cyn y pandemig. Cyn y pandemig, roedd nifer y bobl a oedd yn mynd i adrannau achosion brys yn cynyddu (**Arddangosyn 5**), ac roedd mwy o bobl yn cael eu hatgyfeirio i apwyntiad cyntaf fel claf allanol (**Arddangosyn 6**). Yn ogystal â niferoedd cynyddol, roedd y GIG hefyd wedi bod yn gweld newid yn oedran cleifion, wrth i gyfran y bobl hŷn sy'n mynd i adrannau achosion brys gynyddu'n gyson. Cafodd COVID-19 effaith ddramatig ar sawl rhan o GIG Cymru ym mis Mawrth 2020, ond mae gweithgarwch wedi dechrau cynyddu ers hynny.

### Arddangosyn 5: presenoldeb mewn adrannau achosion brys blynyddol cyfartalog 2010/11 i 2020/21



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o StatsCymru: Damweiniau ac Achosion Brys – Perfformiad yn erbyn y targed o 4 awr o ran amseroedd aros

**Arddangosyn 6: atgyfeiriadau cyntaf cleifion allanol Ebrill 2012 i Ebrill 2021**


Ffynhonnell: StatsCymru: Atgyfeiriadau yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol (ardal breswyl)

- 27 Er gwaethaf y galw cynyddol am ofal wedi'i gynllunio, dechreuodd nifer y llwybrau cleifion ar gau<sup>14</sup> bob mis ostwng yn 2019 (**Arddangosyn 7**). Yn benodol, cafodd rheolau<sup>15</sup> ar dreth pensiwn a gyflwynwyd gan lywodraeth y DU yn 2019-20 effaith ar ofal wedi'i gynllunio yn y misoedd a arweiniodd at y pandemig. Yn y gorffennol, dibynnai'r GIG ar dalu cyfradd premiwm i glinigwyr i wneud gwaith yn eu hamser eu hunain i wella amseroedd aros. Fodd bynnag, roedd y rheolau newydd yn atal llawer rhag ymgymryd â gwaith ychwanegol oherwydd y bil treth mawr posibl y gallai arwain ato.

14 Mae llwybr ar gau pan dderbynnir claf am ei driniaeth ddiffiniol gyntaf, neu pan wneir penderfyniad i beidio â thrin. Weithiau caiff llwybrau eu cau am resymau eraill megis os nad yw cleifion yn mynychu apwyntiadau.

15 Ym mis Rhagfyr 2019, efelychodd Llywodraeth Cymru ateb dros dro i'r mater a weithredwyd yn Lloegr, lle byddai'r GIG yn talu am y rhwymedigaethau treth. Nodir pryderon Llywodraeth Cymru mewn llythyr gan y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Parhaol, yn ei chyfarwyddo i weithredu'r un dull â Lloegr.

## Arddangosyn 7 : Ilwybrau cleifion ar gau<sup>16</sup> yn ystod y misoedd o fis Medi 2011 i fis Ebrill 2021



Ffynhonnell: StatsCymru: Atgyfeiriad am Driniaeth – Llwybrau Cleifion Ar Gau yn ôl Mis


### Mae nifer y gwelyau GIG yng Nghymru wedi bod yn gostwng yn raddol ers degawdau

28 Rhoddodd COVID-19 bwysau aruthrol ar wasanaethau'r GIG, ond mewn sawl ffordd fe wnaeth waethygu problemau a oedd yno eisoes. Fe wnaeth nifer y gwelyau GIG a oedd ar gael bob dydd yng Nghymru haneru bron o 1989-90 i 2018-19 (**Arddangosyn 8**). Yn ystod y cyfnod hwn, mae data ar faint o amser yr arhosodd cleifion yn yr ysbyty yn awgrymu bod GIG Cymru wedi gwneud defnydd mwy effeithlon o'i welyau a allai gyfrif am rywffaint o'r gostyngiad yn nifer y gwelyau. Rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorau i gyhoeddi rhifau gwelyau yn 2019 ond ailddechreuodd yn ystod y pandemig. Mae **Arddangosyn 9** yn dangos niferoedd gwelyau o fis Ebrill 2020 gan gynnwys gwelyau dros dro mewn ysbytai maes a chyfleusterau eraill. Ni ellir cymharu data gwelyau o 2020 ymlaen yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y ffordd y mae byrddau iechyd yn adrodd am niferoedd gwelyau.

16 Gall cleifion sydd â mwy nag un cyflwr fod â mwy nag un llwybr.



## Arddangosyn 8: gwelyau'r GIG a oedd ar gael yn ddyddiol o 1989-90 i 2018-19



Ffynhonnell: StatsCymru: Data Cryno Ar Welyau'r GIG yn ôl Blwyddyn

## Arddangosyn 9: gwelyau'r GIG a oedd ar gael o 1 Ebrill 2020 i 25 Mehefin 2021




Noder: Mae niferoedd gwelyau StatsCymru yn cynnwys ysbytai maes o 20 Ebrill 2020 ymlaen, ysbytai cymunedol o 23 Ebrill 2020 ymlaen, ac unedau iechyd meddwl o 10 Gorffennaf 2020 ymlaen.

Ffynhonnell: StatsCymru: Gweithgarwch a chapasiti'r GIG yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) – Gwelyau'r GIG yn ôl Dyddiad a Defnydd

- 29 Amlygodd y pandemig y capasiti gwelyau gofal critigol isel yng Nghymru. Adolygodd Llywodraeth Cymru gapasiti gofal critigol yn 2018 a rhoddodd £15 miliwn o gyllid cylchol i fyrddau iechyd i gynyddu nifer y gwelyau staff. Er gwaethaf buddsoddiad, erbyn 2019-20 roedd 154 o welyau gofal critigol (**Arddangosyn 10**) – yr isaf y pen o'r boblogaeth yn y DU ac ymysg yr isaf yn Ewrop<sup>17</sup>. Mewn ymateb i COVID-19, cynyddodd byrddau iechyd gapasiti gofal critigol drwy ailddyrannu capasiti o fannau eraill a lleihau gwasanaethau eraill.

17 Cyfadran Meddygaeth Gofal Dwys a Gymdeithas Gofal Dwys, Guidelines for the Provision of Intensive Care Services, Mehefin 2019

## Arddangosyn 10: gwelyau gofal critigol o 2009-10 i 2019-20




Ffynhonnell: StatsCymru: Gwelyau'r GIG yn ôl Arbenigedd

## Mae cyfraddau defnydd gwelyau yng Nghymru wedi bod yn uwch na'r lefelau diogel ac effeithlon a argymhellir ers 2012


- 30 Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn argymhell<sup>18</sup> na ddylai cyfraddau defnydd gwelyau fod yn fwy nag 85% oherwydd bod cyfraddau defnydd uchel yn gysylltiedig â chanlyniadau cleifion gwaeth ac argyfyngau gwelyau cyfnodol. Mae cyfraddau defnydd gwelyau yng Nghymru wedi bod dros 85% ers 2012-13 (**Arddangosyn 11**). Rhoddodd Llywodraeth Cymru'r gorau i gyhoeddi data ar ddefnydd gwelyau yn 2018-19 gan aildechrau ym mis Ebrill 2020. Gostyngodd cyfraddau defnydd yn ddramatig ym misoedd cyntaf 2020-21 ond maent wedi bod dros 85% ym mis Mehefin 2021 (**Arddangosyn 12**).

18 Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth mewn Iechyd a Gofal, Bed Occupancy. Emergency and Acute Medical Care in over 16s: Service Delivery and Organisation. NICE Guideline 94, Mawrth 2018

**Arddangosyn 11: defnydd canrannol o welyau o 1989-90 i 2018-19**

Ffynhonnell: StatsCymru: Data cryno Gwelyau'r GIG yn ôl Blwyddyn

## Arddangosyn 12: canran defnydd gwelyau o 1 Ebrill 2020 i 25 Mehefin 2021



Noder: Newidiodd Llywodraeth Cymru y ffordd y mae'n adrodd am ddefnydd gwelyau sawl gwaith yn ystod 2020 a 2021. Nid yw wedi dilysu data o fis Ebrill 2020 ymlaen. Un newid allweddol oedd cyfrif gwelyau fel rhai a oedd ar gael dim ond pe bai digon o staff i'w cefnogi.


Ffynhonnell: StatsCymru: Gweithgarwch a chapasiti'r GIG yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) – Gwelyau'r GIG yn ôl Dyddiad a Defnydd

### Cyn y pandemig, mae tystiolaeth bod pobl yn ei chael hi'n anodd cael apwyntiadau meddyg teulu cyfleus

- 31 Ers blynyddoedd lawer, mae gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol wedi bod yn rhan allweddol o bwyslais Llywodraeth Cymru ar atal problemau iechyd rhag gwaethygu a lleihau'r pwysau ar ysbytai cyffredinol o ganlyniad i hynny. Yn benodol, gall pobl nad ydynt yn gallu cael apwyntiad gyda meddyg teulu neu ddeintydd fynd i adrannau ysbytai brys yn lle hynny.

- 32 Mae nifer y practisau meddygon teulu yng Nghymru wedi gostwng o 476 yn 2011 i 407 yn 2019. Gall y gostyngiad fod yn rhannol oherwydd trefniadau gweithio gwahanol gan gynnwys practisau yn uno. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru<sup>19</sup> yn dangos bod 43% o'r ymatebwyr yn 2019-20 yn ei chael hi'n anodd iawn neu'n weddol anodd gwneud apwyntiad meddyg teulu cyfleus (**Arddangosyn 13**). Yn 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Safonau Mynediad at Wasanaethau Meddygol Cyffredinol yn ystod oriau gwaith a osododd wyth targed i bractisau meddygon teulu wella mynediad at bractisau meddygon teulu erbyn mis Mawrth 2021. Byddai practisau meddygon teulu sy'n cyrraedd yr wyth targed yn cael cyfran o £5.7 miliwn o gyllid. Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â monitro perfformiad yn erbyn y safon o ganlyniad i'r pwysau ar systemau ffôn meddygon teulu yn ystod COVID-19. Dyrannwyd £3.7 miliwn ym mis Mehefin 2020 i bractisau wella systemau ffôn digidol.

### Arddangosyn 13: canran yr ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru a oedd yn ei chael yn weddol anodd neu'n anodd iawn cael apwyntiad meddyg teulu cyfleus



Noder: Nid yw'r data ar gyfer 2015-16 ar gael.

Ffynhonnell: StatsCymru – Arolwg Cenedlaethol Cymru

## Mae gweithlu GIG Cymru wedi cynyddu ond mae prinder mewn meysydd penodol

- 33 Cynyddodd nifer cyffredinol staff GIG Cymru 13% o 2010 i fis Mawrth 2020 (**Arddangosyn 14**). Cynyddodd y niferoedd 5% eto o fis Mawrth i fis Rhagfyr 2020 yn rhan o'r ymateb i'r pandemig. Mae rhai o'r staff ychwanegol dros dro. Mae staffio meddygol a deintyddol wedi cynyddu 25% ers 2010. Fodd bynnag, mae cyrff cynrychioliadol wedi tynnu sylw at fylchau penodol yn y gweithlu gan gynnwys: Colegau Brenhinol yr Anaesthetyddion<sup>20</sup>, Ymarferwyr Cyffredinol<sup>21</sup>, Nyrsys<sup>22</sup>, Offthalmolegwyr<sup>23</sup>, Pediatregwyr<sup>24</sup>, Ffisigwyr<sup>25</sup> a Radioleg<sup>26</sup>.
- 34 Yn y gorffennol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddata ar nifer y meddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth a nifer y cymwysterau cyfwerth ag amser llawn. Rhoddodd y gorau i gyhoeddi'r data yn 2018. Mae'r data'n dangos bod nifer y meddygon teulu wedi gostwng ychydig (3%) rhwng 2013 a 2018. Ers mis Mawrth 2020 mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data chwarterol ar nifer y meddygon teulu a gyflogir mewn practisau cyffredinol ond nid oes modd cymharu'r data â blynyddoedd blaenorol. Yr hyn y mae'r data diweddar yn ei ddangos, yw bod chwarter y staff meddygon teulu a gyflogir mewn practisau meddygon teulu dan gontract gyda byrddau iechyd ym mis Medi 2020 yn feddygon teulu locwm<sup>27</sup>. Disgrifiodd ein hadroddiad yn 2019 ar ofal sylfaenol<sup>28</sup> faterion sy'n effeithio ar y gweithlu meddygon teulu yng Nghymru gan gynnwys hyfforddiant, morâl, cyflog a chostau.
- 35 Yn fwy diweddar, mae rhai byrddau iechyd yn pryderu bod staff yn gadael neu'n ymddeol yn gynnwys oherwydd y pandemig. Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddodd Cymdeithas Feddygol Prydain ganlyniadau ei harolwg tracio COVID-19 o feddygon y DU<sup>29</sup>. Dywedodd bron i draean o'r ymatebwyr eu bod bellach yn fwy tebygol o ymddeol yn gynnwys, mae chwarter yn fwy tebygol o gymryd seibiant gyrfa, ac mae 21% yn fwy tebygol o adael y GIG am yrfa arall. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi niferoedd staff eto ers mis Rhagfyr 2020, felly mae'n anodd deall effaith y pandemig ar y gweithlu parhaol.

20 Coleg Brenhinol yr Anaesthetyddion, Medical Workforce Census Report, 2020

21 Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, Trawsnewid ymarfer meddygol: Adeiladu proffesiwn sy'n addas ar gyfer y dyfodol Rhagfyr 2018

22 Y Coleg Nyrsio Brenhinol, Staffing for Safe and Effective Care in the UK, 2020

23 Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, Workforce Census, 2018

24 Coleg Brenhinol y Pediatregwyr ac Iechyd Plant, 2017 Workforce Census: Focus on Wales, 2017


25 Coleg Brenhinol y Ffisigwyr, The Medical Workforce BC (Before COVID-19): the 2019 UK Consultant Census, 2019

26 Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, Clinical Radiology UK Workforce Census 2020 Report 2020

27 Mae meddygon teulu locwm yn gontractwyr hunangyflogedig sydd fel arfer yn costio mwy o arian i bractisau meddygon teulu.

28 Archwilydd Cyffredinol Cymru Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yng Nghymru, Hydref 2019

29 Mae'r arolwg wedi'i seilio ar sampl hunan-ddethol o feddygon sy'n gweithio yn y DU.


**Arddangosyn 14: nifer staff y GIG o 2009 i 2020**

Ffynhonnell: StatsCymru: Crynodeb o Staff y GIG

- 36 Mae **Arddangosyn 15** yn dangos bod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch (am unrhyw reswm) ymhlith staff y GIG wedi cynyddu yn ystod 2020. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mawrth 2021, disgrifiodd Prif Weithredwr GIG Cymru y pwysau sylweddol y mae'r pandemig wedi'u rhoi ar staff iechyd a gofal cymdeithasol. Rhybuddiodd ynglŷn ag effeithiau hirdymor ar iechyd meddwl a chorfforol staff gan gynnwys Anhwylder Straen Wedi Trawma. Er gwaethaf dulliau cymorth a chynnydd o 5% i weithlu'r GIG, cydnabu fod angen mwy o fuddsoddiad i sicrhau gweithlu cryfach yn y GIG.



## Arddangosyn 15: cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff y GIG o fis Ionawr 2010 i fis Rhagfyr 2020



Ffynhonnell: StatsCymru: Absenoldeb Oherwydd Salwch – Canran a oedd yn Absennol yn ôl Grŵp Staff

## Ceir effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID-19 ar iechyd a llesiant y boblogaeth

- 37 Nid ydym yn gwybod effaith lawn y pandemig ar y boblogaeth. Mae galar, trawma, unigedd a cholled wedi gadael eu hól, ond mae'n rhy fuan i ddeall maint y materion iechyd y mae'r pandemig wedi'u hachosi. Mae'r GIG yn dal i drin cleifion COVID-19, adsefydlu pobl a gafodd symptomau difrifol, a dysgu sut i drin cleifion â COVID hir.
- 38 Drwy gydol y pandemig, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn edrych ar effaith ehangach COVID-19 ar y boblogaeth drwy ei arolwg ymgysylltu cenedlaethol, asesiadau o'r effaith ar iechyd, ac ymchwil ryngwladol. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd adroddiad tegwch iechyd<sup>30</sup> yn mapio effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol COVID 19. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwriadu datblygu dangosfwrdd o ddata ar dueddiadau iechyd a llesiant hefyd.

30 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gosod tegwch iechyd wrth wraidd ymateb ac adferiad cynaliadwy COVID-19: Adeiladu Bywydau Llewyrchus i bawb yng Nghymru, Mawrth 2021

- 39 Mae atal a lleihau gweithgarwch nad yw'n fater brys hefyd yn golygu y bydd rhai cleifion ar y rhestr aros wedi datblygu symptomau mwy difrifol wrth iddynt aros, a bod angen triniaeth frys arnynt bellach. Mae oedi i rai rhaglenni sgrinio yn cynyddu'r risg o ganserau heb eu canfod, neu ganserau nad ydynt wedi'u nodi'n ddigon cynnar ar gyfer triniaeth lwyddiannus. Efallai nad yw cyflyrau iechyd eraill wedi'u canfod oherwydd bod pobl yn poeni am fynd at eu meddyg teulu neu adrannau achosion brys.<sup>31</sup>
- 40 Amcangyfrifodd adroddiad tegwch iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod rhwng 361 a 1,231 o fywydau ychwanegol wedi'u colli oherwydd oedi wrth sgrinio am ganser, ôl-groniadau atgyfeirio a chapasiti diagnostig cyfyngedig. Fe wnaeth yr adroddiad ddisgrifio hefyd y galw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl. Dengys **Arddangosyn 6** (yn yr adran flaenorol) fod atgyfeiriadau cyffredinol wedi gostwng yn sylweddol ym misoedd cyntaf y pandemig ac nad ydynt wedi dychwelyd yn llawn i lefelau cyn COVID. Ni wyddom pam nad yw atgyfeiriadau wedi dychwelyd i lefelau blaenorol. Mae'n bosibl y bydd y galw cynyddol yn dod i'r amlwg wrth i lefelau heintiau ostwng a bod pobl yn magu mwy o hyder i ymweld â gweithwyr iechyd proffesiynol.

## Perfformiad gofal iechyd

- 41 Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar lefel bwrdd iechyd ar weithgarwch a pherfformiad y GIG bob mis ar ddangosfwrdd GIG Cymru.


### **Nid yw GIG Cymru wedi cyrraedd rhai targedau allweddol ers bron i ddegawd**

- 42 Er gwaethaf gweithgarwch cynyddol, nid yw GIG Cymru wedi cyrraedd targedau allweddol ar brydlondeb gofal brys a gofal wedi'i gynllunio, a gwasanaethau canser ers sawl blwyddyn (**Arddangosyn 16 i 18**). Mae perfformiad yn erbyn targedau yn amrywio'n sylweddol rhwng byrddau iechyd.

---


31 Er efallai fod presenoldeb mewn adrannau achosion brys wedi gostwng oherwydd systemau brysbennu 'ffonio'n gyntaf' a gyflwynwyd gan ysbytai yn ystod COVID-19.

### Arddangosyn 16: canran presenoldeb sy'n treulio llai na'r phedair awr mewn adran achosion brys o fis Hydref 2009 i fis Mai 2021




Ffynhonnell: StatsCymru: Damweiniau ac Achosion Brys – Perfformiad yn erbyn y targed o 4 awr o ran amseroedd aros

### Arddangosyn 17: canran o lwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau triniaeth o fis Medi 2011 i fis Ebrill 2021



Ffynhonnell: StatsCymru: Llwybrau Cleifion sy'n Aros i Ddechrau Triniaeth

### Arddangosyn 18: canran cleifion canser sy'n dechrau triniaeth yn y mis o fewn 62 diwrnod i'r amheuaeth gyntaf o ganser o fis Gorffennaf 2019 i fis Ebrill 2021




Ffynhonnell: StatsCymru: Llwybr Canser tybiedig – Llwybrau Ar Gau

## Mae ôl-groniadau sylweddol o gleifion sy'n aros am driniaeth

- 43 Fel yng ngwledydd eraill y DU a rhannau eraill o'r byd, cynyddodd yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaeth yn sylweddol yn sgil oedi a lleihau gweithgarwch nad yw'n fater brys yn ystod y pandemig. Erbyn mis Chwefror 2021, roedd bron i 550,000 o lwybrau cleifion agored (**Arddangosyn 19**) gan gynrychioli nifer enfawr o bobl ar y rhestr aros am driniaeth a chynnydd o 19% ers mis Chwefror 2020; roedd dros hanner wedi bod yn aros am fwy na 26 wythnos. Mae adolygiad Dadansoddiad Cyllidol Cymru<sup>32</sup> o'r GIG a Chyllideb Cymru yn amcangyfrif y gallai adfer rhestrau aros y GIG i lefelau cyn COVID arwain at gost o rhwng £152 miliwn a £292 miliwn y flwyddyn dros gyfnod o bedair blynedd o 2022-23.

### Arddangosyn 19: nifer y bobl yn aros am driniaeth arfaethedig o fis Medi 2011 i fis Ebrill 2021




Ffynhonnell: StatsCymru: Cleifion sy'n Aros i Ddechrau Triniaeth yn ôl Mis

- 44 Fodd bynnag, roedd rhestrau aros cyn COVID eisoes dan bwysau sylweddol. Roedd rhai byrddau iechyd wedi gwneud cynnydd gan leihau nifer y cleifion a oedd yn aros mwy na 26 wythnos am driniaeth ond nid oedd y targed ledled Cymru wedi'i gyrraedd a bu'r sefyllfa'n dirywio drwy 2019-20. Dengys Arddangosyn 20 fod dros 72,000 o lwybrau cleifion cyn COVID-19 (**Chwefror 2020**) yn aros mwy na 26 wythnos am driniaeth.

32 Dadansoddiad Cyllid Cymru, Y GIG a Chyllideb Cymru: Rhagolwg a Heriau i Lywodraeth Nesaf Cymru, Ebrill 2021

## Arddangosyn 20: nifer y llwybrau cleifion yn aros dros 26 wythnos am driniaeth o fis Medi 2011 i fis Ebrill 2021



Ffynhonnell: StatsCymru: Llwybrau Cleifion Ar Gau yn ôl Mis

## Gofal iechyd: materion allweddol

### Mae'n hen bryd newid y system gyfan

- 45 Cyn y pandemig, roedd rhannau o'r system iechyd, ac iechyd a gofal cymdeithasol fel 'system gyfan' dan bwysau mawr. Yn 2016, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [ar y pryd] adolygiad seneddol gan banel annibynnol o arbenigwyr o ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol. Canfu'r adolygiad<sup>33</sup> nad oedd darpariaeth gwasanaethau yn gyson dda a bod diwylliant gwrth-risg yn llesteirio newid. Nododd Cymru lachach gynlluniau i fynd i'r afael â materion yr adolygiad seneddol a dywedodd fod yn rhaid i wasanaethau drawsnewid yn gyflym.
- 46 Mae Llywodraeth Cymru a chyrrff iechyd wedi cydnabod ers tro yr angen i newid. Dros y degawd diwethaf, mae ein hadroddiadau wedi nodi enghreifftiau cadarnhaol o arloesedd a gwelliant ar draws GIG Cymru. Hyd yn hyn, mae newid wedi'i gyfyngu i rai ardaloedd bach ac mae mentrau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Rhaglen Gofal Wedi'i Gynllunio, a modelau gofal newydd a ariennir gan y Gronfa Drawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig<sup>34</sup>, wedi bod yn araf i effeithio ar drawsnewid y system gyfan.
- 47 GIG ar gyfer gofal dewisol. Er gwaethaf rhywfaint o gynnydd, canfuom nad oedd y newid system gyfan sydd ei angen i greu gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio cynaliadwy wedi digwydd. Nododd ein hadroddiad ddeg cyfle i ailosod ac ailgychwyn y system gofal wedi'i gynllunio<sup>35</sup>. Ers hynny, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn gwneud cynnydd yn erbyn y cyfleoedd hynny, gan gynnwys archwilio ffyrdd newydd o reoli amseroedd aros am ofal dewisol er mwyn canolbwyntio'n well ar ganlyniadau cleifion a blaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

---

33 Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, Adroddiad Interim, Gorffennaf 2017, a Adroddiad Terfynol, Ionawr 2018

34 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cronfa Gofal Integredig ym mis Gorffennaf 2019

35 Archwilydd Cyffredinol Cymru, 10 Cyfle i Ailosod ac Ailgychwyn y System Gofal Wedi'i Gynllunio, Medi 2020

## **Mae dysgu o'r ymateb i COVID-19 yn cynnig cyfleoedd i oresgyn rhwystrau i drawsnewid**

- 48 Yn gadarnhaol, symudodd cyrff iechyd, prif gynghorau a'u partneriaid gam yn nes at weithredu fel system gyfan yn eu hymateb cyfunol i COVID-19. Mae ein hadroddiadau ar Brofi, Orlhain, Diogelu, Cyfarpar Diogelu Personol<sup>36</sup>, a'r rhaglen frechu i gyd yn disgrifio cydweithio cryf rhwng gwahanol sefydliadau a chyflawni yn gyflym. O ran Profi, Orlhain Diogelu, gweithiodd cyrff cyhoeddus gyda'i gilydd i gynllunio a chyflawni gwasanaeth newydd sbon ymhen ychydig fisoedd. Mae Astudiaeth Trawsnewid ac Arloesi COVID-19 Cydffederasiwn y GIG<sup>37</sup> yn disgrifio enghreifftiau o arloesi yn ystod y pandemig. Yn yr argyfwng COVID-19, fe wnaeth cyrff cyhoeddus oresgyn rhai o'r rhwystrau i gydweithio llwyddiannus a darparu gwasanaethau y maent wedi cael trafferth â nhw ers blynyddoedd.
- 49 Fe wnaeth y pandemig gyflymu prosiectau trawsnewid digidol a allai gynnig gwersi i fynd i'r afael â gwendidau wrth gyflawni prosiectau eraill. Disgrifiodd ein hadroddiadau ar Systemau Gwybodeg y GIG<sup>38</sup> a System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru<sup>39</sup> gynnydd araf wrth weithredu rhaglenni digidol. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, rhoddodd cyrff cyhoeddus atebion digidol ar waith yn gyflym i drefnu a darparu gwasanaethau, cyfathrebu â chleifion a chydweithwyr ac ar gyfer cydweithio. Ar gyfer Profi, Orlhain, Diogelu, gweithiodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyda'r sector preifat i ddatblygu a gweithredu llwyfan digidol ar gyfer olrhain cysylltiadau yn gyflym. Yn yr un modd, datblygodd System Imiwneiddio Cymru yn gyflym ar gyfer y rhaglen frechu.

## **Mae cyfleoedd i ddarparu gwell pwyslais yn y system iechyd yng Nghymru ar ganlyniadau i gleifion a'r boblogaeth ehangach**

- 50 Dywedodd ein gwaith ar amseroedd aros yn 2020 (paragraff 47) y gall y pwyslais weithiau ar gyrraedd targedau ystumio penderfyniadau clinigol a blaenoriaethu cleifion yn ôl angen. Ers degawdau, mae rhannau helaeth o GIG Cymru wedi'u hysgogi gan yr angen i gyrraedd targedau prydlondeb yn hytrach na'r canlyniadau i gleifion. Mae cyfleoedd i fyfyrion ar drefniadau atebolrwydd wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu Gweithrediaeth y GIG. Trwy ddwyn swyddogaethau cyflawni, goruchwyllo a gwella cenedlaethol ynghyd, gallai GIG Cymru ystyried cael y cydbwysedd cywir rhwng ansawdd, darpariaeth a chanlyniadau cleifion.

---

36 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Caffael a Chyflenwi PPE ar gyfer Pandemig COVID-19, Ebrill 2021

37 Cydffederasiwn y GIG, Adroddiad Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid COVID-19 GIG Cymru, Mehefin 2021

38 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru, Ionawr 2018

39 Archwilydd Cyffredinol Cymru, System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, Hydref 2020



- 51 Wrth edrych tua'r dyfodol, efallai y bydd cyfleoedd i gysylltu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn well â gwasanaethau cyhoeddus ehangach i ffurfio ymateb system gyfan i niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol COVID a gwella iechyd y boblogaeth. Amlygodd y pandemig anghydraddoldebau iechyd sylweddol ledled y DU, yn enwedig o ran ethnigrwydd ac amddifadedd, ac mae'r rhain yn galw am egni ac adnoddau newydd i fynd i'r afael â nhw. Dywedodd adroddiad tegwch iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y pandemig wedi datgelu diffyg adnoddau cronig ar gyfer iechyd y cyhoedd, atal clefydau a hybu iechyd.
- 52 Cydnabu Cynllun Adfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr angen i fynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd megis tai, cyflogaeth ac addysg er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (paragraff 36), dywedodd Prif Weithredwr GIG Cymru fod y pandemig wedi codi disgwyliadau o wasanaeth 'lles'.

### **Bydd trawsnewid gwasanaethau ar yr un pryd â mynd i'r afael ag ôl-groniadau a'r ymateb parhaus i COVID-19 yn heriol**

- 53 Ym mis Mai 2021, dyrannodd Llywodraeth Cymru £100 miliwn rhwng byrddau iechyd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaeth. Gwneir rhywfaint o'r gweithgarwch ychwanegol drwy dalu staff presennol i weithio goramser. Mae'r staff wedi blino ac mae llawer wedi gweithio oriau hir yn ystod y pandemig. Gall byrddau iechyd dalu darparwyr preifat i weld cleifion y GIG ond nid oes capasiti preifat enfawr yng Nghymru ac mae rhai eisoes yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig. Yn ogystal, mae darparwyr preifat yn aml yn defnyddio staff y GIG y tu allan i'w horiau contract i wneud y gwaith. Mae recriwtio staff ychwanegol yn dibynnu ar ba un a yw'r staff cywir ar gael.
- 54 Yn awr, gydag ôl-groniadau enfawr o gleifion sy'n aros i gael eu gweld, mae'r angen i drawsnewid yn fwy nag erioed. Ond mae'r her o'i gyflawni yn sylweddol. Mae angen arweiniad, egni ac adnoddau staff i drawsnewid ar raddfa fawr. Mae angen rhoi'r lle i gyrff iechyd gynllunio a gwneud pethau'n wahanol. Mae'r prinder gweithlu presennol wedi'i ddwysáu gan salwch COVID-19 a hunan-ynysu oherwydd amlygiad i COVID-19, a thrwy adleoli staff y GIG i'r ymateb parhaus i COVID-19. Yn ogystal, gohiriodd llawer o staff wyliau blynyddol yn ystod y pandemig.

- 55 Mae COVID-19 yn dal i fod yn weithredol ledled y DU ac mae'n rhaid cydbwysu trawsnewid â thrin a lleihau lledaeniad y feirws. Bydd gwasanaethau Profi, Orlhain a Diogelu a'r rhaglen frechu yn parhau, gyda chynlluniau i roi brechiadau atgyfnerthu yn y dyfodol agos. Bydd yn rhaid i gyrff iechyd hefyd ddarparu'r rhaglen brechu rhag y fflw tymhorol yn ôl yr arfer. Yn ogystal, mae cadw pellter cymdeithasol a mesurau eraill i atal trosglwyddo yn cyfyngu ar gynhyrchiant oherwydd eu bod yn cyfyngu ar nifer y staff a'r cleifion sy'n gallu defnyddio adeiladau'n ddiogel. Hyd yn oed gyda buddsoddiad sylweddol, mae angen staff ar y GIG a safleoedd diogel i drin yr ôl-groniad a fydd yn heriol wrth i'r ymateb i COVID barhau. .



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)